Cynhadledd: Caffael Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, 23 Mawrth 2007

Adroddiad gweithdy

Gwerth yr Arian: costio buddion cynaladwyedd

Cadeirydd: Kevin Bishop, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Gwenda Raybould, Gwerth Cymru
"Sut y gellir cyfiawnhau buddion Caffaeliad Cynaliadwy?"
Gweler www.organic.aber.ac.uk/schoolsnet/conf07/Raybould.ppt.

Dr Nic Lampkin, Canolfan Organig Cymru
"Bwyd Organig a chaffaeliad cyhoeddus"
Gweler www.organic.aber.ac.uk/schoolsnet/conf07/Lampkin.ppt

Sylwadau a gweithrediadau:
1. Mae'n ofid o'r mwyaf y bydd ymgorffori'r awgrymiadau sydd wedi'i gwneud ynghylch caffaeliad cyhoeddus yn golygu cynnydd anferth yn y baich gwaith.
2. Mae datblygu mewn modd cynaliadwy yn anodd ei feintioli a'i nodi, ond mae labeli (fel 'organig') yn gallu bod o help.
3. Yn aml nid oes gan arlwywyr lawer o ymwybyddiaeth o ystyr organig, ac felly nid ydynt yn gofyn amdano yn benodol.
4. Mae angen Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gyda chynlluniau peilot a thargedau.
5. Byddai o gymorth pe gofynnid i gyflenwyr i ddarparu gwybodaeth ynghylch cynaladwyedd pan ânt ar gronfa ddata'r cyflenwyr. Hyd yn oed os na ddefnyddid y wybodaeth yn syth, byddai'n codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith y cyflenwyr a helpu i wella safonau.
6. Byddai'n ddefnyddiol petai Gwerth Cymru yn llunio'r meini prawf, yn lle bod y 22 awdurdod lleol yn gwneud hynny'n unigol.
7. Mae'r ymchwil yn dangos bod y gwaith yma'n gofyn am hyrwyddwyr ac ewyllys wleidyddol glir er mwyn llwyddo.
8. Mae angen adeiladu system fonitro a sail dystiolaethol gadarn. Mae angen gwybodaeth ynghylch
   - ceginau ysgolion:
   - snghenion hyfforddiant
   - canolfan gyflenwi.
9. Mae angen newid yng nghanfyddiad swyddogion caffael, ac mae angen i staff gydweithio gyda'r BBChM (Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, *SMEs*).
10. Byddai'n beth da i gysylltu'r gronfa ddata maeth gyda blaenoriaethau adrannau bwyd-amaeth.
11. Byddai o gymorth petai'r adrannau Cynllunio Amgylchedd a Chefn Gwlad ac Addysg mewn cysylltiad rheolaidd a'i gilydd ynghylch y materion hyn.